Inspecting policing in the public interest

# Adolygiad o Adroddiadau Troseddau a Digwyddiadau'r Heddlu

Heddlu Dyfed-Powys
Ionawr 2012

Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) yn arolygiaeth annibynnol, yn arolygu plismona er lles y cyhoedd. Rydym yn monitro, arolygu ac adrodd ar effeithlonrwydd y gwasanaeth heddlu yn Lloegr a Chymru. Mae rhagor o wybodaeth a chopïau o adroddiadau arolygu ac adolygu ar gael ar ein gwefan, www.hmic.gov.uk.

## Y broses o gofnodi troseddau a digwyddiadau

Mae gan y broses gofnodi dri cham allweddol:

- **Cofnodi digwyddiad:** Mae aelod o'r cyhoedd yn galw am gymorth yr heddlu, neu mae heddwas yn gweld neu'n darganfod trosedd. Mae'r heddlu'n creu cofnod digwyddiad.
- **Cofnodi trosedd:** Os yw'r heddlu'n penderfynu bod trosedd wedi'i gyflawni, maent yn creu cofnod trosedd (fel arfer yn syth bin).
- **Ymchwilio i drosedd:** Mae ymchwiliadau'n cychwyn cyn gynted â phosibl, fel arfer ag ymholiadau cychwynnol sy'n chwilio am glemiau posibl ac yn casglu tystiolaeth ('ymchwiliad sylfaenol'). Yna mae 'ymchwiliad eilaidd' manylach yn cymryd lle er mwyn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn y camau cychwynnol.

## Diben yr adolygiad

Mae'r Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol, Nick Herbert, wedi gofyn i HMIC ymchwilio i ansawdd y data troseddau a digwyddiadau a gesglir gan luoedd yr heddlu ar draws Lloegr a Chymru.

## Pam mae mor bwysig i gael data troseddau a digwyddiadau o ansawdd uchel?

Mae data o ansawdd uchel yn golygu:

- Gall yr heddlu sefydlu maint, lleoliad a dioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB), ac felly gynllunio'u gwaith er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i ddioddefwyr a'u cymunedau;
- Gall y cyhoedd, y Llywodraeth ac HMIC gael darlun cywir o drosedd ac ASB mewn ardal neilltuol, a barnu a yw perfformiad eu llu'n cynrychioli gwerth am arian.

Mae ymrymiad y Llywodraeth i atebolrwydd cyhoeddus a thryloywder yn ychwanegu'r angen am ddata cywir a chyson at hwn. Bydd hwn yn dod yn gynyddol o bwysig wrth i oruchwyliaeth o'r gwasanaeth heddlu symud i ffwrdd o Whitehall i gomisiynwyr heddlu a throsedd lleol (PCCau), a fydd yn dibynnu ar wybodaeth gywir, leol ynghylch y ffordd mae eu llu'n perfformio.

### Pwy sy'n gosod y safonau ar gyfer cofnodi troseddau a digwyddiadau?

Mae'r Swyddfa Gartref yn gosod y safonau ar gyfer cofnodi troseddau a digwyddiadau ill dau. Ategir y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cofnodi Troseddau (NCRS) gan Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref (HOCR). Mae'r rhain yn anelu at ddarparu safonau cyson ar gyfer pob llu ac ymagwedd tuag at gofnodi troseddau sy'n seiliedig ar anghenion y dioddefwr.

### Methodoleg yr adolygiad: nodyn ar gasglu data

Gwiriodd HMIC gywirdeb nifer fach o gofnodion troseddau a digwyddiadau'r llu. Defnyddiwyd hwn i amlygu unrhyw broblemau posibl y gellid archwilio iddynt â phwrpas yn ystod yr adolygiad.

Er nad oedd maint y sampl yn ddigon mawr i fod yn ystadegol arwyddocaol, mae'n rhoi rhyw arwydd ynghylch ansawdd y data a gasglwyd gan y llu, ac effeithlonrwydd ei systemau a'i brosesau. Felly cynhwysir rhai ganfyddiadau o'r casgliad o ddata isod.

## Canfyddiadau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys

### A yw'r llu'n cofnodi troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gywir ac yn gyson?

Gwiriodd HMIC 120 o ddigwyddiadau a gofnodwyd gan Heddlu Dyfed Powys. Roedd chwech wedi'u cau'n anghywir heb godi trosedd sy'n awgrymu y cofnodir troseddau a gofnodir gan Heddlu Dyfed Powys yn gywir ar y cyfan ac yn unol ag NCRS.

Mewn achosion ble roedd y llu wedi dosbarthu troseddau a digwyddiadau'n gywir, fe'u cofnodon nhw'n gywir wedyn. Mae diwylliant perfformiad llu cryf yn bodoli ar draws y llu. Mae tystiolaeth ddiweddar yn dangos darlun gwellhaol mewn cysylltiad â chydymffurfiad NCRS/VCOP, er bod hwn yn anghyson ar draws ardal y llu. Byddai ymagwedd corfforaethol manylach tuag at adolygu digwyddiadau o drosedd a ddosbarthir fel rhai nad ydynt yn droseddau yn cyflawni lefelau gwell o gydymffurfiad.

### Beth yw ansawdd yr ymchwilio a'r gwasanaeth i ddioddefwyr?

Daeth HMIC o hyd i dystiolaeth am lefelau da iawn o ymchwilio a gofal i ddioddefwyr ar ôl i'r trosedd neu ddigwyddiad gael ei adnabod yn gywir. Mae sarjantiaid rheng flaen yn adolygu pob trosedd a digwyddiad er mwyn sicrhau y dyrannir ymchwiliadau i staff a chael eu cau'n gywir yn y diwedd; mae hwn wedi arwain at lefelau uchel iawn o oruchwyliaeth, darganfyddiadau a boddhad dioddefwyr.

Fodd bynnag, roedd yr ymagwedd anghyson tuag at adnabod galwyr hyglwyf ac ailadroddus o bosibl yn lleihau'r lefel gyffredinol o ofal i ddioddefwyr Gallai'r ganolfan gyfathrebu tri-gwasanaeth a chyflwyno system well ar gyfer cofnodi ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) wella'r gwasanaeth yn sylweddol a lleihau'r risg i ddioddefwyr troseddau ac ASB.

## Sut mae’r llu’n sicrhau y cwrddir â safonau?

Cadeiriodd y Prif Gwnstabl gyfarfodydd perfformiad llu rheolaidd sy’n cynnal ymrwymiad cadarn Dyfed Powys i berfformiad uchel, gan ddal rheolwyr a staff rheng flaen yn gyfrifol am ansawdd cofnodion troseddau a digwyddiadau. Mae polisi cyfredol y llu’n datgan bod rhaid i heddwas fynychu pob trosedd a digwyddiad yr adroddir amdano; mae hwn wedi arwain at ofal da i ddioddefwyr a niferoedd uchel o ddarganfyddiadau. Fodd bynnag, ni wnaeth staff gofnodi digon o fanylion bob tro wrth iddynt dderbyn adroddiad am drosedd neu ddigwyddiad yn y lle cyntaf. Dylai’r llu a’r awdurdod heddlu ddatblygu eu proses gofnodi gychwynnol er mwyn codi safonau yn y maes hwn a helpu wrth adnabod galwyr hyglwyf ac ailadroddus.

## Casgliadau

Roedd arweiniad prif swyddogion ym maes cofnodi data troseddau a digwyddiadau’n dda gan sicrhau lefelau uchel o ofal i ddioddefwyr a darganfyddiadau ble cofnodir troseddau. Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau digonol yn bodoli. Mae gan y llu safonau uchel wrth gofnodi troseddau a digwyddiadau mewn modd cyson a chywir er mwyn adlewyrchu’r gyfres o ddigwyddiadau a ddisgrifir gan ddioddefwyr yn gywir. Sefydlir cyfrifoldebau a sgiliau’r staff yn dda wrth helpu sicrhau ansawdd data digwyddiadau a throseddau. Mae prosesau sicrwydd ansawdd sylfaenol,yn perthyn i ddata troseddau a digwyddiadau, yn cael eu defnyddio i adnabod problemau ac i weithredu.

Goruchwyliodd sarjantiaid rheng flaen eu staff yn dda. Mae HMIC yn hyderus bod gan Heddlu Dyfed-Powys ac Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys yr arweinyddiaeth, gallu ac arbenigedd i gyflawni’r newidiadau sydd eu hangen ac i gynnal eu lefelau uchel cyfredol cyffredinol o berfformiad.

© HMIC 2012
ISBN: 978-1-84987-645-2
www.hmic.gov.uk